

Rhoi blaenoriaeth i fyw'n dda gyda chlefyd Parkinson Prif ofynion Etholiad y Senedd 2021

Ynglŷn â chlefyd Parkinson

Clefyd Parkinson yw'r cyflwr niwrolegol sydd yn tyfu gyflymaf yn y byd¹, ac nid oes unrhyw iachâd ar hyn o bryd. Clefyd Parkinson yw'r hyn sydd yn digwydd pan fydd y celloedd yn yr ymennydd sydd yn gwneud dopamine yn dechrau marw. Ceir dros 40 o symptomau, o gryndod a phoen i orbryder. Gellir trin rhai, ond mae sgîl-ffeithiau difrifol i rai cyffuriau.

Yng Nghymru, mae tua 7,600 o bobl eisoes yn byw gyda chlefyd Parkinson. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu o bumed i ryw 9,000 erbyn 2030.

Yr hyn sydd yn bwysig i'r rhan fwyaf o bobl sydd wedi eu heffeithio gan glefyd Parkinson

Mae safbwyntiau ac anghenion pobl sydd wedi eu heffeithio gan glefyd Parkinson yn ganolog i'r gwaith y mae Parkinson's UK Cymru'n ei wneud, a'n huchelgais pennaf, sef canfod iachâd a gwella bywydau pawb sydd wedi eu heffeithio gan y cyflwr.

Yn 2020, gofynnwyd i bobl sydd wedi eu heffeithio gan glefyd Parkinson – y rheiny sydd yn byw gyda'r cyflwr, eu teuluoedd a'u gofawyr – beth yw'r materion pwysicaf i ni ymgyrchu drostynt trwy ein [harolwg a'n pŵl piniwn coronafeirws 'Beth sydd bwysicaf?'](#). Gan fod y pandemig wedi digwydd hanner ffordd trwy ein harolwg, gan achosi cryn dipyn o ansicrwydd, defnyddiwyd y pŵl piniwn i ddilysu safbwyntiau ein cymuned. Ymatebodd dros 2,300 o bobl yng nghymuned clefyd Parkinson i arolygon ar draws y DU gyda 5% o'r ymatebion o Gymru.

Dywedodd pobl sydd wedi eu heffeithio gan glefyd Parkinson yng Nghymru eu bod angen:

- Iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel
- Mynediad at y triniaethau iawn ar yr adeg iawn

¹ Dorsey, E. et al. (2018). Global, regional, and national burden of Parkinson's disease, 1990–2016: a systematic analysis for the Global Burden of Disease Study 2016. *The Lancet Neurology*, 17

- Gallu cael budd-daliadau ariannol
- Cael eu meddyginiaeth ar gyfer clefyd Parkinson ar amser pan fyddant mewn ysbyty neu gartref gofal

Gweithio mewn partneriaeth

Mae Parkinson's UK Cymru yn aelod gweithredol o [Gynghrair Niwrolegol Cymru](#) ac rydym yn cefnogi argymhellion [ymchwiliad i gynnydd Cynllun Cyflawni Cyflyrau Niwrolegol](#) y Grŵp Trawsbleidiol ar Gyflyrau Niwrolegol. Rydym hefyd yn aelodau o Gynghrair Cynhalwyr Cymru, [Cynghrair Henoed Cymru](#) a Fforwm Polisi Conffederasiwn GIG Cymru ac yn ardystio'r maniffestos yr ydym wedi eu datblygu ar y cyd fel cynghreiriau.

Ynghyd â chymuned clefyd Parkinson yng Nghymru, rydym yn annog Llywodraeth nesaf Cymru i:

1. Ddatblygu argymhellion y Grŵp Trawsbleidiol ar Gyflyrau Niwrolegol yn cynnwys:

- Dod â'r 'Diffyg cyllid cronig' ar gyfer gwasanaethau niwrolegol i ben.
- Sefydlu system genedlaethol ar gyfer casglu, cydgrynhoi a chyhoeddi canlyniadau data ar wasanaethau niwrolegol, gan weithio mewn partneriaeth â'r gymuned cyflyrau niwrolegol gyfan.

2. Sicrhau y gall pobl â chlefyd Parkinson gael iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel:

"Fel person â chlefyd Parkinson, mae fy mywyd bob dydd yn cael ei effeithio gan ddatblygiad y clefyd ac mae hyn yn cael ei reoli'n rhannol gan fy meddyginiaeth ddyddiol. Mae fy ymgynghorydd yn penderfynu ar ddos y feddyginiaeth mewn apwyntiad, argymhellir patrwm o apwyntiadau bob chwe mis. Yn ystod y tair blynedd a hanner diwethaf, rwyf wedi gweld fy ymgynghorydd unwaith. Mae hyn yn golygu nad yw fy meddyginiaeth wedi cael ei hadolygu yn y deunaw mis diwethaf ac nid wyf wedi cael unrhyw gymorth yn rheoli fy nghlefyd Parkinson."

- Ymrwymo i fuddsoddi i ddatblygu gweithlu'r GIG a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd niferoedd priodol staff arbenigol ar draws Cymru i gynorthwyo anghenion pobl â chlefyd Parkinson a'u gofalwyr.
- Cyfeirio pob bwrdd iechyd i weithredu [Canllawiau NICE](#) a [Safonau Ansawdd](#) ar gyfer clefyd Parkinson a dod â'r annhegwch o ran ansawdd a mynediad at ofal clefyd Parkinson ar draws Cymru i ben.

3. Sicrhau bod pobl â chlefyd Parkinson yn gallu cael y triniaethau iawn ar yr adeg iawn

“I mi, roedd cael ysgogi yn nwf n yr ymennydd (DBS) yn amserol yn bwysig iawn. Rwyf i, fel llawer o bobl â chlefyd Parkinson, yn mynd yn bryderus iawn ar adegau ac mae cael llawdriniaeth fawr yn creu straen. Roedd yn rhaid i mi gwblhau llawer o asesiadau gwahanol ond unwaith yr oedd y rhain wedi eu gwneud fe aeth popeth yn iawn. Cefais y driniaeth bum mlynedd yn ôl ac rwy'n credu ei fod wedi fy helpu i gadw'n egniol.”

Mae triniaethau ar gyfer clefyd Parkinson datblygedig yn cynnwys apomorphine – chwistrelliad neu drwythiad o dopamine agonist o dan y croen, gel levodopa/carbidopa yn cael ei roi i mewn i'r stumog trwy diwb a llawdriniaeth ysgogi yn nwf n yr ymennydd (DBS.) Mae mynediad at y triniaethau hyn ar draws Cymru yn anghyson ac mae amserau aros ar gyfer cael llawdriniaeth DBS mewn canolfannau yn Lloegr yn anodd i'w canfod, ond mae gennym dystiolaeth o gleifion yn aros dros 18 mis am llawdriniaeth feddygol sydd yn sensitif i amser. Mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru:

- Fynnu bod angen i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) fonitro a chyhoeddi amserau aros ar gyfer atgyfeirio cleifion Cymru i gael triniaeth ym mhob canolfan Ysgogi yn Nwf n yr Ymennydd yn cynnwys monitro 'taith gyfan DBS', o atgyfeirio i'r llawdriniaeth, er mwyn sicrhau tryloywder i'r cleifion.
- Sicrhau bod y seilwaith a'r opsiynau rhagnodi wedi eu sefydlu ar mwyn i bawb yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer triniaeth am glefyd Parkinson datblygedig allu ei chael ble bynnag y maent yn byw yng Nghymru.

Yn Ebrill a Mai 2020 (ar y cyd â Phrifysgol Caerhirfryn) fe wnaethom gynnal arolwg am effaith cyfyngiadau Covid ar bobl sydd wedi eu heffeithio gan glefyd Parkinson². Ymatebodd dros 2000 o bobl i'r arolwg, 6.6% o'r rhain o Gymru. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau ar fynediad at therapi iaith a lleferydd, ffisiotherapi a therapi galwedigaethol yn ystod y pandemig. Canlyniadau Cymru oedd y gwaethaf o holl wledydd y DU a'r DU yn gyffredinol o ran apwyntiadau'n cael eu canslo a dewis amgen ddim yn cael ei gynnig:

Ar draws y DU, ni chafodd 70.9% o bobl gynnig dull amgen o gael apwyntiad (dros y ffôn neu ar fideo.) Yng Nghymru, ni chafodd 87.2% gynnig dewis amgen. Cafodd 20.4% ar draws y DU gynnig dewis amgen. Dim ond 8.5% yng Nghymru gafodd gynnig dewis amgen.

- Sicrhau, wrth i ni gael adferiad o effaith pandemig Covid-19 ar ein gwasanaethau iechyd a gofal, nad yw pobl â chyflyrau fel clefyd Parkinson yn mynd yn angof a'u bod yn gallu cael y therapi iaith a lleferydd, y ffisiotherapi a'r therapi galwedigaethol sydd ei angen arnynt i gynnal eu hannibyniaeth.
- Gwneud addewid i gynorthwyo Parkinson's UK Cymru i gyflawni nodau'r ymgyrch 'Hawl i Adsefydlu' sydd yn cael ei arwain gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol a Chymdeithas Siartredig Ffisiotherapi.

² <https://www.parkinsons.org.uk/news/how-have-coronavirus-covid-19-restrictions-impacted-people-affected-parkinsons>

4. Gallu cael budd-daliadau ariannol

Mae pobl â chlefyd Parkinson yn dibynnu ar gymorth ariannol i barhau'n annibynnol ac mewn rheolaeth. Canfuodd ein hadroddiad 'Cost clefyd Parkinson yng Nghymru' yn 2017³ fod aelwydydd yng Nghymru lle mae gan rywun glefyd Parkinson £17,136 ar eu colled bob blwyddyn. Cafodd hyn ei rannu'n gostau iechyd uwch (£1,861), costau gofal cymdeithasol uwch (£3,249), colli incwm oherwydd ymddeoliad cynnar neu oriau gwaith is (£12,026.) Er i'r ymchwil gael ei chynnal cyn Covid-19, gwyddom o Sefydliad Joseph Rowntree fod effaith Covid-19 wedi arwain at amgylchiadau ariannol mwy ansicr hyd yn oed i bobl anabl yn cynnwys costau cynyddol a gostyngiad mewn incwm.⁴ Mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru:

- Wneud addewid i ddwyn Llywodraeth y DU i gyfrif ynghylch y system les er mwyn gwneud budd-daliadau anabledd yn decach a sicrhau nad yw pobl â chlefyd Parkinson yn cael eu gadael ar ôl.

5. Sicrhau bod pobl â chlefyd Parkinson yn cael eu meddyginiaeth ar gyfer clefyd Parkinson mewn ysbyty neu gartref gofal ar amser, bob amser

"Cefais yr argraff eu bod yn meddwl fy mod yn bensiynwr oedd yn or-bryderus y dylent eu hanwybyddu. Ar y cyfan, roeddwn yn teimlo bod rhai o'r staff wedi gwrthod sylweddoli pwysigrwydd cael meddyginiaeth clefyd Parkinson ar amser"

Mae Datganiad Ansawdd 4 NICE⁵ yn dweud bod pobl mewn ysbyty neu gartref gofal yn cymryd levodopa o fewn 30 munud o'r amser gweinyddu sydd wedi cael ei ragnodi iddynt yn bersonol. Gall cymhlethdodau difrifol ddatblygu os nad yw meddyginiaeth levodopa clefyd Parkinson yn cael ei chymryd ar amser.

O'r rheiny yng Nghymru sydd yn mynd i mewn i'r ysbyty gyda chlefyd Parkinson, dywedodd 73% wrthym nad oeddent wedi cael eu meddyginiaeth ar amser (*ffynhonnell Parkinson's UK Your Life, Your Services survey of people affected by Parkinson's 2018*). Mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru:

- Roi cyfarwyddyd i bob bwrdd iechyd i sefydlu gweithdrefnau yn ymwneud â rhagnodi, cyflenwi a gweinyddu meddyginiaethau clefyd Parkinson mewn lleoliad ysbyty sydd yn golygu y gall meddyginiaeth clefyd Parkinson gael ei gweinyddu ar amser bob amser.
- Rhoi cyfarwyddyd i gartrefi gofal sefydlu gweithdrefnau penodol yn ymwneud â rhagnodi, cyflenwi a gweinyddu meddyginiaethau clefyd Parkinson mewn lleoliad cartref gofal sydd yn golygu y gall meddyginiaeth clefyd Parkinson gael ei gweinyddu ar amser bob amser.

6. Ymrwymo i ddod ag allgáu pobl hŷn ac anabl yn ddigidol i ben

³ <https://www.parkinsons.org.uk/news/whats-cost-living-parkinsons>

⁴ <https://www.jrf.org.uk/report/financial-impact-covid-19-disabled-people-and-carers>

⁵ <https://www.nice.org.uk/guidance/qs164/chapter/Quality-statement-4-Levodopa-in-hospital-or-a-care-home>

“Mae’r feirws hefyd wedi amlygu pa mor bwysig yw mynediad at y rhyngrwyd a sgiliau technoleg sylfaenol i bobl â chlefyd Parkinson.” (ymateb i [arolwg Parkinson’s UK ar effaith cyfyngiadau’r cyfnod clo ar bobl â chlefyd Parkinson](#))

Mae pandemig Covid-19 wedi dwysáu’r ffocws ar allgáu pobl hŷn yn ddigidol yng Nghymru.

- Mae’n hanfodol bod Llywodraeth nesaf Cymru yn symud yn gyflym i fuddsoddi mewn cymorth cynhwysiant digidol ac yn dileu rhwystrau i gynhwysiant digidol.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Rachel Williams, Rheolwr Polisi, Ymgyrchoedd a Chyfathrebu, Parkinson’s UK Cymru rwilliams@parkinsons.org.uk 0344 225 3715